| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | 24 Ebrill 2024 |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol** | Gary Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes |
| **Awdur yr Adroddiad** | Gary Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes |
| **Teitl** | Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn ymwneud â chylch gorchwyl diwygiedig drafft ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (y Pwyllgor).

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Gofyn am argymhelliad y Pwyllgor i fabwysiadu cylch gorchwyl diwygiedig ar gyfer y Pwyllgor.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn ystyried y Cylch Gorchwyl drafft sydd ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad hwn ac yn argymell i'r Cyngor eu mabwysiadu.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor wedi'i adolygu, ar gais y Pwyllgor, er mwyn iddynt gael eu diweddaru yn unol â chanllawiau SSCCC (Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth).

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

4.2. Wrth gynnal yr adolygiad o'r cylch gorchwyl, rhoddwyd ystyriaeth i gylch gorchwyl a awgrymwyd a gyhoeddwyd gan SSCCC, cylch gorchwyl awdurdodau lleol cyfagos a chanllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

4.3. Mae'r Cylch Gorchwyl arfaethedig sydd ynghlwm fel Atodiad 1 wedi'i ddrafftio mewn ymgynghoriad â'r Swyddog a151, y Prif Archwilydd Mewnol a Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor.

4.4. Mae'r Cylch Gorchwyl arfaethedig yn cynnwys holl swyddogaethau statudol y Pwyllgor a nodir ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, fel y'i diwygiwyd.

4.5. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y Cylch Gorchwyl drafft sydd ynghlwm fel Atodiad 1 ac argymell, yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau a awgrymir ac a gymeradwyir gan y Pwyllgor, eu mabwysiadu i'r Cyngor.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Mae gwaith y Pwyllgor yn cyfrannu at thema’r Cynllun Corfforaethol ‘Cyngor sy’n cael ei redeg yn dda ac yn perfformio’n dda’. Bydd cylch gorchwyl addas i'r diben yn helpu'r Pwyllgor i gyflawni ei rôl statudol mewn perthynas â llywodraethu'r Cyngor. Mae llywodraethu corfforaethol effeithiol yn hanfodol ar gyfer unrhyw Gyngor sy'n cael ei redeg yn dda ac sy'n perfformio'n dda.

# 6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol yn gysylltiedig â’r adroddiad hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen asesiad ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae awdur yr adroddiad wedi ymgynghori â Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor, y Swyddog a151 a'r Prif Archwilydd Mewnol.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Yr wyf yn gefnogol o’r Cylch Gorchwyl drafft.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nid oes unrhyw risgiau yn gysylltiedig â’r penderfyniad hwn.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. a81 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, fel y'i diwygiwyd.